**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 24 TACHWEDD 2020**

**Yn bresennol:** Dr Debra Williams (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling (Dirprwy Gadeirydd); Mr David Powell; Mrs Julie May; Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr David Burley (Pennaeth Busnes); Mr Josh Lovell (Swyddog Arolygon); Mr Nathan Sweetman (Swyddog Cymorth Busnes); Miss Hannah Toor (Swyddog Cymorth Busnes).

**Amser Dechrau:** 09:45
**Amser Gorffen:** 12:15

**Ymddiheuriadau:** Dd/B

## 1. Datganiadau Buddiant

1.1. Datganodd Nathan Sweetman (Swyddog Cymorth Busnes) fuddiant ym Mro Morgannwg.

## 2. Gwybodaeth Friffio gan y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad o'r cyfarfod diweddar gyda Lisa James o'r Is-adran Noddi yn Llywodraeth Cymru.

2.2. Mae angen diwygio'r mapiau ar gyfer Gorchymyn Sir Fynwy ymhellach. Mae hyn yn derbyn sylw gan yr Adran Gartograffig ac Elaina Chamberlain.

2.3. Cadarnhawyd bod ymateb wedi cael ei roi i'r Cynghorydd Williams, yn ymwneud â'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaed, o ran Adroddiad Argymhellion Terfynol Caerdydd.

2.4. Bydd swyddogion o'r Is-adran Noddi yn cyfarfod â'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar 10 Rhagfyr i drafod yr amserlen benderfynu ar gyfer yr adroddiadau a gyflwynwyd. Bydd diweddariad yn cael ei roi cyn y cyfarfod gyda'r Comisiwn ar 15 Rhagfyr.

2.5. Nodwyd bod deddfwriaeth ddrafft wrthi'n cael ei pharatoi ar hyn o bryd os penderfynir gohirio etholiadau'r Senedd.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 04 Tachwedd 2020

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau.

## 4. Materion sy'n Codi

4.1. Dywedwyd bod yr holl waith cysylltiedig â'r Cais Rhyddid Gwybodaeth ynglŷn â Sir Fynwy wedi cael ei gwblhau a'i anfon.

4.2. Dywedwyd bod y Rheolwr Cyllid wedi holi Archwilio Cymru ynglŷn â'r tâl am waith archwilio ychwanegol ar y cyfrifon blynyddol.

4.3. Nodwyd bod cynnydd wedi'i wneud ynglŷn â'r Pwyllgor Pobl a bod adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Tîm Rheoli a fyddai'n monitro cynnydd ynglŷn â'r pwyntiau gweithredu sy'n weddill.

4.4. Nodwyd y bydd hyfforddiant staff ychwanegol yn cael ei gynnal ym mis Chwefror 2021, a bod diwrnod i ffwrdd i'r tîm, gan gynnwys Comisiynwyr, wedi cael ei drefnu dros dro ar gyfer mis Mawrth 2021.

4.5. Nodwyd bod adborth cadarnhaol wedi'i dderbyn i'r adroddiadau ôl-arolwg, yn ymwneud â'r prosesau arolygu a gynhaliwyd.

4.6. Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd yn rhoi diweddariadau perthnasol ar geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yng nghyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol.

4.7. Nodwyd newidiadau staffio.

## 5. Arolwg Etholiadol Bro Morgannwg – Opsiynau Terfynol

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 17 Tachwedd 2020 gan y Comisiwn. Bydd cyfanswm nifer y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael ei gadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn.

5.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 1, sef y Bont-faen, Llandŵ/Ewenni, Llanilltud Fawr, Sain Tathan a Saint-y-brid, a **chytunodd ar opsiwn 1**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pum ward etholiadol y Bont-faen, Llandŵ, Llanilltud Fawr, Sain Tathan a Saint-y-brid.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.
- Mae'n osgoi creu ward newydd â thri aelod mewn ardal wledig fawr.

- Mae’n gwella cydraddoldeb etholiadol i ryw raddau.
- Nid yw opsiwn 2 yn gwella cydraddoldeb etholiadol ymhellach.

(Roedd opsiwn 1 yn amgenach nag opsiwn 2)

**Mae’r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o ddeuddeg aelod, sef dau yn fwy na’r aelodaeth bresennol.**

5.3. Mae’r Comisiwn yn argymell mabwysiadu’r enwau fel y’u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Cowbridge | Y Bont-faen |
| Llandow | Llandŵ |
| Llantwit Major | Llanilltud Fawr |
| St Athan | Sain Tathan |
| St Bride’s Major | Saint-y-brid |

5.4. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 2, sef Baruc, Buttrills, Cadog, Castleland, Court, Dyfan, Gibbonsdown ac Illtud, a **chytunodd ar opsiwn 1**. Mae’r opsiwn hwn yn cynnwys wyth ward etholiadol Baruc, Buttrills, Cadog, Castleland, Court, Dyfan, Gibbonsdown, Illtud.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Nid yw’n creu unrhyw gymunedau rhanedig.
- Mae’n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Nid yw’r un o’r wardiau’n parhau i fod yn fwy na +/- 25% o’r cyfartaledd sirol arfaethedig.

Nodwyd bod yr opsiwn hwn yn dychwelyd ward newydd â phedwar aelod, ond mae’r wardiau etholiadol yn adnabyddus i’r etholwyr ac mae ganddynt ffiniau y gellir eu hadnabod yn rhwydd.

**Mae’r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 20 aelod, sef dau yn fwy na’r aelodaeth bresennol.**

5.5. Mae’r Comisiwn yn argymell mabwysiadu’r enwau fel y’u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Baruc | Baruc |
| Buttrills | Buttrills |
| Cadoc | Cadog |
| Castleland | Castleland |
| Court | Court |
| Dyfan | Dyfan |
| Gibbonsdown | Gibbonsdown |
| Illtyd | Illtud |

5.6. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 3, sef Llanbedr-y-fro, y Rhws a Gwenfô, a **chytunodd ar opsiwn 1**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pedair ward etholiadol Llanbedr-y-fro, y Rhws, Sain Nicolas a Thresimwn, a Gwenfô.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol, yn benodol yng Ngwenfô.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.
- Nid yw'r un o'r wardiau'n parhau i fod yn fwy na +/- 25% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig, heblaw am Lanbedr-y-fro yn yr amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r cynllun hwn yn cynnig y trefniadau gorau ar gyfer yr ardal ac yn cael ei gefnogi gan Gabinet Bro Morgannwg. Mae hefyd yn osgoi creu ward arall â phedwar aelod mewn ardal led-wledig.

Ystyriwyd trydydd opsiwn, a **nodwyd** bod diwygiad wedi cael ei gynnig yn y Cabinet, sef bod cymunedau Sain Siorys a Llanbedr-y-fro yn aros o fewn Llanbedr-y-fro, a bod y trefniadau presennol yn parhau.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o chwe aelod, sef un yn fwy na'r aelodaeth bresennol.**

5.7. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Peterston-super-Ely | Llanbedr-y-fro |
| Rhoose | Y Rhws |
| St Nicholas and Llancarfan | Sain Nicolas a Thresimwn |
| Wenvoe | Gwenfô |

5.8. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 4, sef Cornerswell, Llandochau, Plymouth, St. Augustine's, Stanwell a Dinas Powys, a **chytunodd ar opsiwn 2**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pum ward etholiadol Cornerswell, Llandochau, Plymouth a St. Augustine's, Stanwell.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.
- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Nid yw'r un o'r wardiau'n parhau i fod yn fwy na +/- 25% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o dri aelod ar ddeg, sef yr un nifer â'r aelodaeth bresennol.**

5.9. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Cornerswell | Cornerswell |
| Llandough | Llandochau |
| Plymouth | Plymouth |
| St Augustine's | St Augustine's |
| Stanwell | Stanwell |

## 6. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig mis Tachwedd 2020 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni a **nodwyd** ei gynnwys.

6.2. **Nodwyd** bod papur opsiynau Bro Morgannwg wedi cael ei gytuno mewn egwyddor, ond bod rhai o'r ffigurau cychwynnol yn anghywir a bydd angen eu hailweithio. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei ystyried yn y cyfarfod ar 15 Rhagfyr 2020.

6.3. **Nodwyd** bod adroddiad drafft Sir Fynwy wedi cael ei gytuno ac y bydd yn cael ei gyhoeddi ar 10 Rhagfyr 2020. Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal o 17 Rhagfyr 2020 tan 10 Mawrth 2021.

6.4. **Nodwyd** y bydd y Sesiwn Friffio ar Gynigion Drafft Sir Fynwy yn cael ei chynnal ar 15 Rhagfyr 2020.

## 7. Rheoli Risgiau – Cofrestr Risgiau

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 11 Tachwedd 2020 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** ei gynnwys.

7.2. **Nodwyd** bod y Comisiwn yn aros am ganlyniad cyfarfod rhwng swyddogion yr Is-adran Noddi a'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynglŷn â'r arolygon a gyflwynwyd.

7.3. Bydd angen monitro'r ymateb i Argymhellion Terfynol Caerdydd ac ystyried p'un a ddylid ei ychwanegu at y gofrestr risgiau.

7.4. **Nodwyd** os bydd y Gweinidog yn gofyn i'r Comisiwn wneud rhagor o waith ar arolygon sydd wedi'u cwblhau, y byddai hyn yn achosi risg bosibl gan y byddai graddfeydd amser y rhaglen arolygon yn dynn. Byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn.

7.5. Ystyriodd y Comisiwn CR5 a **chytunwyd** ar y sgôr risg hon.

7.6. **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i ychwanegu'r Gofrestr Risgiau fel eitem Unrhyw Fater Arall ar gyfer cyfarfod 15 Rhagfyr.

## 8. Adroddiad ar y Gyllideb

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 11 Tachwedd 2020 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** ei gynnwys.

8.2. **Nodwyd** bod y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid wedi adolygu tanwariant amcangyfrifedig diwedd y flwyddyn ac wedi gwneud rhai addasiadau i broffil pob cyllideb. Roedd y darlun mwy cywir hwn o amseriad gwariant amcangyfrifedig wedi arwain at danwariant misol is na misoedd blaenorol.

8.3. **Nododd** y Rheolwr Cyllid y bydd y tanwariant ar gyfer 2020/21 oddeutu £200 - £10,000, yn dibynnu ar y sefyllfa staffio yn ystod chwarter olaf y flwyddyn.

8.4. **Gweithredu:** Y Rheolwr Cyllid i wneud y trosglwyddiadau angenrheidiol rhwng cyllidebau i adlewyrchu'r sefyllfa amcangyfrifedig ar ddiwedd y flwyddyn yn rhan o'r adroddiad ar y gyllideb i gyfarfod 15 Rhagfyr.

## 9. Gwersi a Ddysgwyd o Ymarfer Cynllunio Adnoddau Menter (ERP) 2017

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig mis Tachwedd 2020 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni a **nodwyd** ei gynnwys.

9.2. **Cytunodd** y Comisiynwyr i ychwanegu'r eitem Gwersi a Ddysgwyd at agenda cyfarfod y Comisiwn y flwyddyn nesaf, dyddiad i'w gadarnhau.

9.3. O ran dyddiad dechrau ar gyfer y rhaglen arolygon etholiadol nesaf, **nodwyd** y byddai'r Comisiwn, fel arfer gorau, yn ymgynghori â'r aelodau etholedig ynglŷn â'r ddogfen polisi ac ymarfer ar ôl yr etholiad nesaf.

9.4. **Nodwyd** gan y Comisiwn y byddai angen i'r gwaith ymchwil allanol ynglŷn ag effaith amddifadedd fod yn dryloyw ac yn ddealladwy.

9.5. **Nodwyd** efallai bod is-grwpiau yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y gall y Comisiwn ymgysylltu â nhw wrth ystyried agweddau ar Bolisi ac Ymarfer.

9.6. **Cytunwyd** ymchwilio i fodelau'r Alban a Lloegr er mwyn cymharu ac amlygu arfer gorau.

9.7. **Gweithredu:** Y Pennaeth Polisi a Rhaglenni i ymchwilio i fodelau'r Alban a Lloegr a chyflwyno crynodeb i gyfarfod y Comisiwn y flwyddyn nesaf, dyddiad i'w gadarnhau.

9.8. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig mis Tachwedd 2020 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni a **nodwyd** ei gynnwys.

## 10. Trefniadau Parhad Busnes Presennol (Diweddariad Llafar)

10.1. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar o'r trefniadau parhad busnes presennol.

10.2. **Nodwyd** bod y swyddfa'n gweithredu ar sail rota gyda chapasiti staff 40%.

10.3. Mae'r swyddfa ar gau bob dydd Gwener ac mae'r staff yn parhau i weithio o gartref.

10.4. **Cytunwyd** parhau i weithio yn y modd hwn gydag eithriadau ar waith ar gyfer anghenion busnes.

10.5. Mae'r Comisiwn yn parhau i weithredu polisi un i mewn / un allan yn y gegin, ac mae'n rhaid i staff ac ymwelwyr wisgo masgiau wyneb yn yr ardaloedd cymunedol.

10.6. **Nodwyd** bod cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd unigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd gyda staff.

## 11. Datganiad Polisi Tâl Blynyddol 2019-20

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 16 Tachwedd 2020 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** ei gynnwys.

11.2. Y Rheolwr Cyllid i ddiwygio pwynt 4.1 i gynnwys 'Er ei fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, mae'r Comisiwn yn defnyddio'r un graddfeydd cyflog.'

11.3. Y Rheolwr Cyllid i ddiwygio pwynt 6.2 i nodi y bydd polisi tâl y flwyddyn nesaf yn cael ei newid o Lywodraeth Cymru i'r Comisiwn.

11.4. Y Rheolwr Cyllid i ddiwygio pwynt 6.5 i gynnwys 'hyd nes y daw secondiad y Dirprwy Brif Weithredwr i ben ar 31 Rhagfyr'.

11.5. **Cytunwyd** y bydd lles staff a Covid-19 yn cael eu cynnwys yn adroddiad nesaf 2020/21.

11.6. **Gweithredu:** Y Rheolwr Cyllid i wirio'r ffigurau staff a diwygio'r adroddiad os bydd angen a dychwelyd y rhain i'r cyfarfod ar 15 Rhagfyr 2020. Y Rheolwr Cyllid i anfon y wybodaeth hon at y Comisiynwyr trwy neges e-bost.

11.7. **Gweithredu:** Y Rheolwr Cyllid i gynnwys hyfforddiant staff yn yr adroddiad.

## 12. Polisi'r Gymraeg

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 16 Tachwedd 2020 gan y Pennaeth Busnes a **nodwyd** ei gynnwys.

12.2. **Cytunodd** y Comisiwn i gymeradwyo'r ddwy ddogfen bolisi.

12.3. **Nodwyd** bod angen i'r Pennaeth Busnes ddiwygio Eitem 12.1 pwyntiau 2-4, gan fod y testun yn 'Dosbarth Safon' ar goll.

12.4. **Nododd** y Pennaeth Busnes fod system ffôn newydd a mewnrwyd wedi cael eu hychwanegu, sy'n cynnwys neges ddwyieithog.

12.5. **Nodwyd** bod y Comisiwn yn annog staff i ddilyn hyfforddiant ar y Gymraeg. Mae aelodau staff yn cael gwersi Cymraeg ar hyn o bryd ac mae eraill wedi cwblhau gwersi'n flaenorol.

12.6. **Nodwyd** bod y Pennaeth Polisi a Rhaglenni a'r Pennaeth Busnes wrthi ar hyn o bryd yn cwblhau cwrs Dwyieithrwydd yn y Gweithle a gynhelir gan Academi Cymru.

12.7. **Nodwyd** y bydd y Comisiwn yn ceisio trefnu cyfleoedd wythnosol i ddysgwyr Cymraeg ymarfer eu sgiliau gydag aelodau o'r tîm staff sy'n siarad Cymraeg.

12.8. **Gweithredu:** Cyfieithu'r polisïau i'r Gymraeg a'u cyhoeddi ar fewnrwyd CFfDLC.

## 13. Calendr Digwyddiadau

13.1. Rhoddodd y Comisiynwyr ystyriaeth i amserlen y Calendr Digwyddiadau.

13.2. **Cytunwyd** y byddai cyfarfod nesaf y Comisiynwyr yn cael ei gynnal ar 15 Rhagfyr, trwy gyfuniad o Skype a phresenoldeb yn y swyddfa. Efallai y bydd angen cynnal cyfarfod interim o ganlyniad i'r ffigurau anghywir.

13.3. Nodwyd y bydd tri aelod o staff y Comisiwn yn gadael ar 31 Rhagfyr 2020, sef Swyddog Cymorth Busnes, Swyddog Arolygon a Dirprwy Brif Weithredwr.

13.4. **Gweithredu:** Y Cadeirydd i gadarnhau pryd y bydd ar gael ym mis Ionawr 2021 a mis Chwefror 2021 ac anfon diweddariad ynglŷn â hyn at y Pennaeth Polisi a Rhaglenni trwy e-bost erbyn dydd Gwener 3 Rhagfyr.

## 14. Unrhyw Fater Arall Perthnasol

**14.**1 Cytunwyd y byddai'r enw Cymraeg ar gyfer St Kingsmark (Sir Fynwy) yn cael ei ystyried yn y cyfarfod hwn. Awgrymwyd yr enw Cymraeg amgen Llancynfarch. Mae Panel Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg yn argymell mabwysiadu'r enw Cymraeg Llangynfarch. Mae'r enw hwn wedi cael ei gofnodi ers y ddeuddegfed ganrif ac er nad yw wedi cael ei ddefnyddio'n gyffredin ers canrifoedd, mae wedi'i gofnodi mewn sawl gwaith cyfeirio safonol ac mae'n ymddangos bod ymwybyddiaeth gynyddol o'r enw yn lleol.

Penderfynwyd y bydd yr enw gwreiddiol St Kingsmark yn cael ei ddefnyddio yn y cynigion. Mae St Kingsmark yn gyson â'r enw a ddefnyddiwyd yn yr Arolwg Cymunedol.

## 15. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 15 Rhagfyr 2020